OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1250 (Cy. 283)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *11 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 62 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988((**1**), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**2.** Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**3**) (Nodiadau Esboniadol), hepgorer y paragraff o'r enw "Cymorth gwladwriaethol".

(**1**) 1988 p. 41; gweler adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) gan adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1 a 44(3) o Atodlen 5, a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, ac adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2017/113 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/122 (Cy. 28).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

9 Tachwedd 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan neu ar ran awdurdodau bilio yng Nghymru.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu, gan gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chyfundrefn Cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd ("yr Wybodaeth o ran Cymorth Gwladwriaethol").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r Wybodaeth o ran Cymorth Gwladwriaethol o Atodlen 2 i Reoliadau 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.